



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Glan Morfa
22 Hinton Street
Y Sblot
Caerdydd
CF24 2LZ**

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2017

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 28/03/2017

Cyd-destun

Mae Ysgol Glan Morfa yn ysgol gymunedol Gymraeg, sydd wedi ei lleoli yn ardal Y Sblot, Caerdydd. Mae 212 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 33 oed meithrin rhan-amser. Mae ganddi 8 dosbarth.

Mae tua 32% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 19%. Mae'r ysgol yn nodi bod gan tua 28% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Ychydig o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref. Ychydig o ddisgyblion sydd o gefndir lleiafrifol ethnig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ionawr 2009. Mae'r dirprwy bennaeth wedi bod yn gweithredu fel pennaeth ers Medi 2016. Penodwyd pennaeth newydd ym mis Ionawr 2017 a dechreuodd yn ei swydd wythnos cyn yr arolygiad.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Glan Morfa yn 2016-2017 yw £3,825. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Nghaerdydd yw £7,995 a'r lleiafswm yw £3,046. Mae Ysgol Glan Morfa yn y 42ain safle o'r 97 ysgol gynradd yng Nghaerdydd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Digonol
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd a rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen ac yn eu medrau llafar, darllen a rhifedd yng nghyfnod allweddol 2
- llawer o ddisgyblion yn siarad yn hyderus yn y Gymraeg a Saesneg, yn cyfathrebu'n glir ac yn trafod eu gwaith yn aeddfed
- medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol
- rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn llwyddiannus i ddatrys problemau
- rhan fwyaf y disgyblion yn dangos diddordeb a chymhelliant yn eu gwaith, cydweithio ag eraill ac yn dyfalbarhau yn dda gyda thasgau
- yr ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog sy'n ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus
- athrawon a chynorthwyr dysgu yn rheoli ymddygiad yn fedrus, ac o ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn
- y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol iawn, ac mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud o leiaf gynnydd da yn erbyn eu targedau
- yr ethos Cymreig, hapus a theuluol yn bodoli yn yr ysgol, sy'n llwyddo'n effeithiol i annog disgyblion i fod yn gyfeillgar tuag at ei gilydd ac i fwynhau dysgu

Fodd bynnag:

- mae diffyg geirfa a chystrawen yn cyfyngu ar allu ychydig o ddisgyblion i ddatblygu eu syniadau trwy gyfrwng y Gymraeg
- nid yw lleiafrif y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu ac nid oes ganddynt afael gadarn ar fedrau atalnodi sylfaenol a sillafu yn y ddwy iaith
- mae medrau technoleg, gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mwyafrif y disgyblion yn gyfyngedig
- yng nghyfnod allweddol 2, nid yw'r cynllunio bob amser yn sicrhau dilyniant a chydbwysedd pynciol i ddiwallu gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, a'r maes llafar cytûn ar gyfer addysg grefyddol yn llawn.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth gweithredol weledigaeth glir ac uchelgeisiol ar gyfer yr ysgol yn seiliedig ar greu cymuned lle mae lles disgyblion a staff yn rhan ganolog o waith yr ysgol yn ogystal â chodi safonau cyrhaeddiad
- gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o anghenion yr ysgol ac, mewn cyfnod cymharol fyr, maent wedi llwyddo i osod cyfeiriad clir i'r ysgol drwy gryfhau strwythurau, atebolrwydd a chynyddu disgwyliadau
- gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth gynhwysfawr o safonau disgyblion a'r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant, ac yn datblygu eu rôl o herio'r ysgol yn effeithiol
- gan yr ysgol brosesau trylwyr ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant sy'n cael effaith gadarnhaol ar godi safonau
- gan yr ysgol bartneriaethau strategol effeithiol sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr at welliannau mewn lles a safonau disgyblion

Argymhellion

- A1 Gwella medrau ysgrifennu yng nghyfnod allweddol 2
- A2 Codi safonau TGCh disgyblion
- A3 Gwella llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion yng nghyfnod allweddol 2
- A4 Sicrhau bod cynlluniau gwaith yn ymateb i bob elfen o'r cwricwlwm ac yn datblygu medrau'r disgyblion yn fwriadus
- A5 Grymuso rôl y rhieni ym mhrosesau hunanarfarnu

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Digonol

Safonau: Digonol

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol y mwyafrif o ddisgyblion yn isel ar gyfer eu hoed. Yn gyffredinol, mae llawer yn gwneud cynnydd da yn y Cyfnod Sylfaen ac yn eu medrau llafar, darllen a rhifedd yng nghyfnod allweddol 2. Mae medrau meddwl llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn, er enghraifft wrth ystyried tystiolaeth o wahanol ffynonellau ynglŷn â phwy oedd yn gyfrifol am drychineb y Titanic. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud o leiaf gynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae medrau llafar llawer o ddisgyblion o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan ar ôl iddynt ddechrau yn yr ysgol. Maent yn gwrando'n ofalus ac yn siarad yn eglur gan ddefnyddio ystod gynyddol o eirfa a phatrymau brawddegau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn hyderus yn y ddwy iaith. Maent yn cyfathrebu'n glir ac yn trafod eu gwaith yn frwdfrydig ac yn aeddfed. Fodd bynnag, mae diffyg geirfa a chystrawen yn cyfyngu ar allu ychydig o ddisgyblion i ddatblygu eu syniadau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar draws yr ysgol, mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn darllen yn rhugl a chyda mynegiant priodol. Maent yn defnyddio'u medrau darllen yn llwyddiannus wrth ddarllen am wybodaeth yn ystod eu gwaith thematig, er enghraifft wrth ymchwilio ar y we am gestyll. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn trafod eu llyfrau yn hyderus. Maent yn trafod teimladau cymeriadau yn aeddfed gan ddewis geiriau a brawddegau o'r testun i gefnogi'u barn. Mae uwch fedrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus. Maent yn defnyddio'r medrau hyn yn effeithiol wrth weithio ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gywain gwybodaeth am fywyd Winston Churchill er mwyn creu bywgraffiad.

Mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Maent yn dechrau ffurfio llythrennau yn gywir ac yn ysgrifennu brawddegau syml i gyfleu ystyr, er enghraifft wrth ddisgrifio anifeiliaid. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n gymwys mewn ystod eang o ffurfiau ysgrifennu yn eu gwersi iaith ac ar draws y cwricwlwm. Gan amlaf, maent yn atalnodi'n gywir ac yn sillafu yn unol â'u hoed a'u gallu. Mae disgyblion mwy abl yn amrywio brawddegau ac yn dewis geirfa ddiddorol. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae medrau ysgrifennu yn anghyson. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth gadarn o wahanol ffurfiau ysgrifennu. Mae disgyblion mwy abl yn defnyddio geirfa ddiddorol i gyfleu naws a theimlad i wneud eu gwaith yn fwy diddorol i'r darllenydd, er enghraifft wrth ysgrifennu ymson milwr o'r Ail Ryfel Byd. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu ac nid oes ganddynt afael gadarn ar fedrau atalnodi sylfaenol a sillafu yn y ddwy iaith. Ar draws cyfnod allweddol 2, nid yw llawysgrifen a chyflwyniad gwaith lleiafrif y disgyblion yn ddigon graenus.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae datblygiad mathemategol rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae gan ran fwyaf y disgyblion afael gadarn ar rif, siâp, mesur a thrin data. Maent yn cymhwyso'u medrau i ddatrys problemau geiriol yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau yn llwyddiannus wrth weithio ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth fesur i'r centimetr agosaf hyd pysgod ffres o'r archfarchnad.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth effeithiol o strategaethau rhif. Maent yn defnyddio ystod eang o strategaethau priodol i ddatrys problemau mathemategol yn llwyddiannus. Mae eu medrau rhesymu yn datblygu'n effeithiol. Mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn fedrus ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth lunio graff llinell yn gywir i ddangos gostyngiad mewn tymheredd dŵr poeth mewn ymchwiliad gwyddonol.

Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'u medrau TGCh yn addas. Er enghraifft, mae disgyblion yn y dosbarth Derbyn yn creu pictogram i ddangos hoff uwd y dosbarth ac mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn creu cyfarwyddiadau gan ddefnyddio algorithm syml i symud roced ar raglen gyfrifiadurol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'r rhynggrwyd yn fedrus i ymchwilio i wybodaeth. Maent yn creu cyflwyniadau electronig syml ar bwnc o'u dewis. Mae ychydig o ddisgyblion yn medru mewnbynnu data i greu graffiau syml yn addas, er enghraifft wrth greu siart cylch o'u hoff sêr cerddoriaeth. Ar draws yr ysgol, mae gan bron bob un disgybl ymwybyddiaeth briodol o sut i gadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r rhynggrwyd. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn creu na defnyddio cronfeydd data ac, at ei gilydd, mae medrau TGCh rhan fwyaf y disgyblion yn gyfyngedig.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwylidig ac ar y deilliant uwch mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol yn gyffredinol wedi gosod yr ysgol yn uwch na'r canolrif o'i gymharu ag ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwylidig dros yr un cyfnod yn gosod yr ysgol gan amlaf yn is na'r canolrif ymhob pwnc craidd. Ar y lefelau uwch, mae perfformiad disgyblion wedi dangos cynnydd yn y Gymraeg a Saesneg dros y tair blynedd diwethaf. Yn gyffredinol, mae perfformiad disgyblion mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi gosod yr ysgol yn is na'r canolrif o'i gymharu ag ysgolion tebyg.

Yn gyffredinol, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn y Cyfnod Sylfaen yn is na'u cyfoedion dros y pedair blynedd diwethaf. Nid oes patrwm arwyddocaol yng nghyfnod allweddol 2 dros yr un cyfnod.

Lles: Da

Mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda iawn. Maent yn ofalgar o'i gilydd ac yn dangos parch gwirioneddol tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Mae hyn yn arwain yn sylweddol at greu awyrgylch dysgu effeithiol. Mae bron pob un disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn sôn am y cymorth buddiol sydd ar gael iddynt os ydynt yn gofidio. Enghraifft dda o hyn yw'r 'Mets Morfa', sy'n gofalu am ddisgyblion yn ystod amseroedd egwyl.

Mae bron bob un disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw a bwyta'n iach. Mae llawer yn cadw'n heini yn rheolaidd drwy amryw o weithgareddau allgyrsiol fel y clwb dawns a'r clwb rygbi.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos diddordeb a chymhelliant yn eu gwaith. Maent yn cydweithio ag eraill ac yn dyfalbarhau gyda thasgau yn dda. Trwy fod yn ymwybodol o'u targedau, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwybod pa mor dda y maent yn cyflawni a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Mae gallu llawer o ddisgyblion i weithio'n annibynnol yn datblygu'n effeithiol. Mae'r rhan fwyaf yn lleisio barn am yr hyn maent eisiau ei ddysgu yn fedrus, er enghraifft wrth ddewis gweithgareddau i gyd-fynd â themâu.

Mae gan yr ysgol ystod dda o bwyllgorau disgyblion sydd yn cynrychioli llais bron bob un disgybl yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol yn dechrau chwarae rhan fwy strategol ym mywyd yr ysgol wrth gymryd rhan ym mhenodiad y pennaeth newydd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn aelodau cyflawn a chyfrifol o'u cymuned ac yn ymfalchïo yn eu Cymreictod. Mae eu medrau bywyd a chymdeithasol yn datblygu'n effeithiol. Er enghraifft, mae'r disgyblion wedi codi arian ar gyfer plant anghenus yn Lesotho ac wedi casglu hen lyfrau o'u cartrefi i'w hanfon fel rhodd i adeiladu llyfrgell mewn ysgol yno. O ganlyniad, mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn am anghenion eraill sy'n llai ffodus na nhw.

Mae canran presenoldeb disgyblion wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf wrth gymharu ag ysgolion tebyg dros y pedair blynedd diwethaf. Mae bron pob un disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r ysgol yn cynnig ystod o eang profiadau dysgu cyfoethog sy'n ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus. Cefnogir y cwricwlwm yn effeithiol drwy ymweliadau gwerthfawr sy'n ychwanegu at brofiadau disgyblion yn eu meysydd dysgu, er enghraifft drwy ymweliadau pwrpasol i'r ganolfan Rufeinig yng Nghaerllion ac i amgueddfa Abertawe.

Mae'r ysgol yn bodloni egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol. Er enghraifft, mae athrawon yn cynllunio'n fuddiol i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng tasgau dan arweiniad a thasgau sy'n ennyn disgyblion i weithio'n annibynnol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau dysgu annibynnol yn dda ac yn gwneud dewisiadau priodol am eu dysgu. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio'n fanwl ac yn darparu gweithgareddau addas er mwyn bodloni anghenion rhan fwyaf y disgyblion. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2, nid yw'r cynllunio bob amser yn sicrhau dilyniant a chydbwysedd pynciol i ddiwallu gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, a'r maes llafar cytûn ar gyfer addysg grefyddol yn llawn.

Mae'r ysgol yn ymgorffori egwyddorion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn briodol. Mae cynlluniau yn sicrhau ystod gynyddol eang o weithgareddau buddiol i ddatblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm. Yn ddiweddar iawn, mae'r ysgol

wedi mabwysiadu cynllun newydd ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun wedi cael digon o amser i ddylanwadu'n gadarn ar ddatblygu'r ystod lawn o fedrau disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn effeithiol. Mae cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu am hanes a diwylliant Cymru, er enghraifft trwy ymweliad â'r Pwll Mawr a thrwy astudio hanes Tryweryn. Mae hyn yn ennyn balchder a brwdfrydedd y disgyblion at eu hiaith, eu hardal a diwylliant Cymru.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o gynaliadwyedd a gofalu am yr amgylchfyd yn effeithiol. Trwy brosiectau ailgylchu, mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ailddefnyddio gwastraff i greu pethau newydd. Mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth ac ehangu eu gwybodaeth o rannau eraill o'r byd a diwylliannau eraill. Er enghraifft, drwy ddatlu diwrnod masnach deg, mae disgyblion yn datblygu'u dealltwriaeth o bwysigrwydd pris teg am gynnyrch.

Addysgu: Da

Mae athrawon yn cynllunio gwersi ysgogol sy'n ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus. Yn gyffredinol, mae ganddynt wybodaeth bynciol da ac yn cysylltu gwersi â dysgu blaenorol yn effeithiol. Gan amlaf, mae'r athrawon yn darparu gweithgareddau addas sy'n bodloni anghenion llawer o ddisgyblion. Er hyn, ar adegau, nid yw'r gweithgareddau bob tro yn ymateb yn llawn i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion.

Un o gryfderau'r addysgu yw'r berthynas hynod ofalgar sydd yn bodoli rhwng staff a disgyblion. Mae hyn yn sicrhau awyrgylch gwaith diogel sy'n galluogi disgyblion i ddysgu'n llwyddiannus. Mae athrawon a chynorthwyr dysgu yn rheoli ymddygiad yn fedrus. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac maent yn barod i ddysgu. Mae bron bob un o'r athrawon yn modelu iaith yn dda. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gywirdeb iaith llawer o ddisgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhannu nodau gwersi a meini prawf llwyddiant yn gyson gyda disgyblion. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn deall beth sydd angen ei wneud i lwyddo yn eu gwaith. Mae llawer o athrawon yn holi'n effeithiol er mwyn herio disgyblion ac i ddatblygu eu medrau meddwl. O ganlyniad, mae medrau meddwl llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae bron bob un o'r athrawon yn cynnig adborth ysgrifenedig defnyddiol i ddisgyblion. Mae hyn yn dathlu eu llwyddiannau ac yn cynnig arweiniad clir iddynt ar gyfer gwelliant. Maent yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymateb i adborth ysgrifenedig ac i asesu gwaith ei gilydd a gwaith eu cyfoedion. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn adnabod nodweddion da yn eu gwaith a beth sydd angen iddynt ei wella.

Mae gan yr ysgol brosesau cynhwysfawr ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Defnyddir y data'n ofalus i fonitro cynnydd y disgyblion, cynllunio'r camau nesaf yn y dysgu ac i ddarparu rhaglenni addysgol ychwanegol yn ôl yr angen.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cynnwys sylwadau gwerthfawr ar gynnydd eu plant, ynghyd â thargedau addas er mwyn gwella.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned hynod ofalgar sydd yn cael effaith gadarnhaol iawn ar les a chyrhaeddiad disgyblion. Mae hyn yn agwedd gref yn yr ysgol. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, ac ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn deall sut i fod yn ddiogel.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus drwy ymweliadau a gweithgareddau'r cwricwlwm. Mae'r sesiynau cydaddoli yn cyfrannu'n sylweddol tuag at ddatblygiad ysbrydol a phersonol disgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol o ansawdd uchel ac yn golygu bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at eraill.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol iawn. Mae athrawon yn adnabod anghenion dysgu ychwanegol yn fuan ac mae arweinwyr yn darparu cymorth priodol yn ôl yr angen. Maent yn monitro cynnydd disgyblion yn gyson. Mae hyn yn eu galluogi i deilwra'r gynhaliach fwyaf priodol i ddisgyblion yn amserol. Mae'r cynlluniau addysg unigol yn fanwl a thrylwyr ac yn cynnwys rhieni a'r disgyblion yn effeithiol yn yr adolygiadau rheolaidd. O ganlyniad, mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud o leiaf gynnydd da yn erbyn eu targedau unigol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf a chefnogol iawn â nifer o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol. Mae hyn yn sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel i ddisgyblion, staff a rhieni. Enghraifft effeithiol iawn yw'r defnydd o'r gwasanaeth cwnsela sydd yn helpu disgyblion i ddatblygu strategaethau defnyddiol i ddelio â'u hemosiynau a'u hymddygiad. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les, hapusrwydd a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae ethos Cymreig, hapus a theuluol yn bodoli yn yr ysgol, sy'n annog disgyblion i fod yn gyfeillgar tuag at ei gilydd ac i fwynhau dysgu yn effeithiol. Un o gryfderau'r ysgol yw'r berthynas amlwg o barch sy'n bodoli rhwng disgyblion ac oedolion. Mae hyn yn sicrhau naws hynod o ofalgar a chynhwysol ac awyrgylch dysgu cefnogol ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae gan yr ysgol bolisiau a dogfennau statudol priodol i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ymhlith y staff a'r disgyblion yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol adnoddau priodol o ansawdd da ar gyfer cyfoethogi'r dysgu. Gwneir defnydd effeithiol o bob rhan o'r adeilad i greu amgylcheddau dysgu ysgogol. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r ystafell gwnsela, sydd yn cynnig awyrgylch diogel a thawel ar gyfer disgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u hymddygiad. Mae staff y Cyfnod Sylfaen yn gwneud defnydd llwyddiannus o'r ardal tu allan gan gynllunio gweithgareddau gwerthfawr yno er mwyn datblygu medrau disgyblion yn effeithiol.

Mae'r adeilad a'r safle yn cael eu cynnal a'u cadw yn dda gydag arddangosfeydd deniadol a lliwgar o waith disgyblion. Mae'r arddangosfeydd hyn yn cefnogi'r dysgu ac yn ennyn balchder y disgyblion yn eu gwaith yn llwyddiannus.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae gan y pennaeth gweithredol weledigaeth glir ac uchelgeisiol ar gyfer yr ysgol. Mae hyn yn seiliedig ar greu cymuned lle mae lles disgyblion a staff yn rhan ganolog o waith yr ysgol, yn ogystal â chodi safonau cyrhaeddiad. Cefnogir y pennaeth gweithredol yn effeithiol gan yr uwch dîm reoli. Ar y cyd, maent yn llwyddo i rannu'r weledigaeth yn llwyddiannus gyda disgyblion, staff, rhieni a llywodraethwyr. Mae hyn wedi creu ethos o gydweithio agos gyda ffocws clir ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o anghenion yr ysgol. Mewn cyfnod cymharol fyr, mae'r tîm wedi llwyddo i osod cyfeiriad clir i'r ysgol drwy gryfhau strwythurau, atebolrwydd a chynyddu disgwyliadau ymysg y staff a rhieni.

Mae gan yr ysgol ystod o bolisïau cyfredol sydd yn canolbwyntio ar fodloni anghenion y disgyblion ac yn sicrhau cysondeb yng ngwaith yr ysgol yn llwyddiannus. Mae cyfarfodydd yr uwch dîm reoli a chyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau gwella. Mae hyn yn arwain at welliannau amlwg yn y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. Er enghraifft, mae'r ffocws ar ddatblygu strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi sicrhau bod athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig adeiladol i ddisgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwybod beth sydd angen ei wella ac yn ymateb yn effeithiol i'r adborth.

Mae gan y staff swydd ddisgrifiadau manwl sy'n cysylltu'n glir â'u cyfrifoldebau unigol. Yn ddiweddar, mae hyn wedi eu galluogi i gymryd cyfrifoldebau am agweddau penodol o waith yr ysgol. Maent yn creu cynlluniau gweithredu pwrpasol ar gyfer eu meysydd ac yn gwerthuso cynnydd yn erbyn gweithredoedd yn ofalus. Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu'n dda at godi safonau ar gyfer disgyblion.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac mae'r Fframweithiau Llythrennedd a Rhifedd yn sicrhau cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau disgyblion yn gynyddol ar draws yr ysgol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth gynhwysfawr o safonau disgyblion a'r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Mae gan y llywodraethwr gyfrifoldebau penodol ac maent yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn derbyn gwybodaeth uniongyrchol am safonau yn yr ysgol. Mae'r pennaeth gweithredol yn paratoi adroddiadau manwl i'r corff llywodraethol am gynnydd yn erbyn targedau'r cynllun gwella'r ysgol. Yn ogystal, mae'r llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ac yn cael cyflwyniadau defnyddiol gan aelodau staff am safonau. Mae eu rôl o gymell a herio'r ysgol fel ffrind beirniadol yn datblygu'n effeithiol.

Gwella ansawdd: Da

Mae gan yr ysgol brosesau hunanarfarnu trylwyr sy'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn o fonitro gwersi, craffu ar waith disgyblion a dadansoddiad manwl o ddata. Mae athrawon, disgyblion a'r llywodraethwyr yn cyfrannu'n effeithiol tuag at y broses. Fodd bynnag, ni chesglir barn rhieni yn ddigon ffurfiol fel rhan o weithgareddau'r broses hunanarfarnu.

Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o weithgareddau hunanarfarnu yn fuddiol i greu adroddiadau cynhwysfawr am ansawdd y ddarpariaeth a safonau disgyblion. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth effeithiol o gryfderau'r ysgol a meysydd sydd angen eu gwella. Mae gan yr holl staff ymwybyddiaeth gadarn o ddata perfformiad sy'n eu galluogi i adnabod anghenion unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn effeithiol.

Mae cyswllt amlwg rhwng prosesau hunanarfarnu a'r cynllun gwella ysgol. Mae gan y cynllun gwella nifer rhesymol o flaenoriaethau. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n glir ar wella safonau a lles disgyblion. Mae'r cynllun wedi ei gostio'n ofalus ac yn nodi cyfrifoldeb staff yn glir. Mae'n cynnwys dangosyddion llwyddiant perthnasol ac amserlenni priodol ar gyfer eu cwblhau. Mae arweinwyr yn gwerthuso cynnydd yn erbyn y dangosyddion yn rheolaidd. Mae'r camau gweithredu eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion, er enghraifft wrth wella safonau rhifedd ac uwch fedrau darllen.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gan yr ysgol bartneriaethau strategol effeithiol sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr at wella lles a safonau disgyblion.

Mae gan yr ysgol berthynas fuddiol â rhieni. Yn ddiweddar, mae cyfathrebu rhwng yr ysgol a rhieni wedi gwella. Mae hyn wedi cryfhau'r berthynas yn effeithiol ac yn sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ar gael i rieni'n amserol. Mae'r ysgol yn trefnu sesiynau hyfforddi llythrennedd a rhifedd defnyddiol i rieni. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar allu rhieni i gefnogi dysgu eu plant. Mae'r 'Cyngor Rhieni' yn gefnogol iawn i'r ysgol drwy godi arian ar gyfer darparu adnoddau ychwanegol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau perthnasol gyda'r gymuned. Mae hyn yn cyfoethogi'r ddarpariaeth yn yr ysgol, ac yn ehangu profiadau disgyblion yn llwyddiannus. Enghraifft fuddiol o hyn yw'r cysylltiad agos gyda'r eglwys leol ar gyfer cynnal cyngherddau.

Mae'r partneriaethau gydag ysgolion eraill a'r ysgol uwchradd leol yn effeithiol. Mae trefniadau ar gyfer safoni a chymedroli asesiadau athrawon diwedd cyfnodau allweddol yn sicrhau cywirdeb yn yr asesu ac ymwybyddiaeth gadarn athrawon o ofynion deilliannau a lefelau. Yn ogystal, mae trefniadau effeithiol ar gyfer trosglwyddo disgyblion i'r ysgol gyfun ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae cysylltiadau gwerthfawr yn bodoli gyda'r cylch meithrin sydd ar safle'r ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym iawn wrth gychwyn yn y dosbarth meithrin.

Mae partneriaeth fuddiol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol. Mae'r partneriaethau hyn yn cyfrannu'n effeithiol at gynorthwyo'r ysgol i wella'i darpariaeth a safonau disgyblion. Er enghraifft, mae'r ymgynghorydd her wedi cynnal hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr. Mae hyn wedi gwella gallu'r corff llywodraethol i ddwyn yr ysgol i gyfri am ei pherfformiad.

Rheoli adnoddau: Digonol

Mae gan yr ysgol nifer priodol o athrawon a staff cynorthwyol sydd â chymwysterau addas i addysgu'r cwricwlwm. Gwneir defnydd effeithiol o'u harbenigedd ac mae cyfraniad y staff cynorthwyol yn effeithiol iawn wrth annog a chefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion statudol ynglŷn â baich gwaith athrawon, gyda'r athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol o'u hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Mae prosesau rheoli perfformiad yr ysgol yn arwain yn effeithiol at ddatblygiad staff gyda thargedau sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol ac anghenion unigolion. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r gwaith ynglŷn ag asesu ar gyfer dysgu sydd yn sicrhau bod disgyblion yn gwybod beth maent yn ei ddysgu a sut i lwyddo yn eu tasgau. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar wella deilliannau.

Mae'r ysgol yn gweithredu'n adeiladol mewn rhwydweithiau dysgu proffesiynol o fewn yr ysgol a thu hwnt. Mae cydweithio agos ag ysgolion eraill er mwyn rhannu arfer dda, fel datblygu strategaethau i wella medrau darllen Cymraeg ac addysgu gwyddoniaeth. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar wella uwch fedrau darllen llawer o ddisgyblion ac i godi safonau gwyddoniaeth.

Mae'r arweinwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn ofalus ac, o ganlyniad, maent wedi llwyddo i ddiddymu'r gorwariant blaenorol. Maent yn sicrhau bod yr adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Gwneir defnydd effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i dargedu disgyblion anghenus, er enghraifft drwy ddarparu rhaglenni ymyrraeth perthnasol. Mae'r disgyblion sydd yn elwa o'r rhaglenni hyn yn gwneud o leiaf gynnydd da tuag at eu targedau.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian.

Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

6812313 - Ysgol Glan Morfa

Nifer y disgyblion ar y gofrestr	214
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd	28.2
Grŵp PYD	4 (24%<PYD<=32%)

Cyfnod Sylfaen

	2013	2014	2015	2016
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2	23	27	29	27
Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)	78.3	88.9	93.1	92.6
Chwarter meincnod	3	1	1	1
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	23	27	29	27
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	82.6	92.6	93.1	92.6
Chwarter meincnod	3	2	1	1
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	30.4	25.9	31.0	40.7
Chwarter meincnod	2	2	2	2
Datblygiad mathemategol (MDT)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	23	27	29	27
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	82.6	92.6	93.1	92.6
Chwarter meincnod	3	1	2	1
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	26.1	37.0	31.0	44.4
Chwarter meincnod	2	1	2	1
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	23	27	29	27
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	91.3	92.6	100.0	100.0
Chwarter meincnod	3	3	1	1
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	30.4	51.9	37.9	59.3
Chwarter meincnod	3	2	3	2

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

6812313 - Ysgol Glan Morfa

Nifer y disgyblion ar y gofrestr

214

Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd

28.2

Grŵp PYD

4 (24%<PYD<=32%)

Cyfnod allweddol 2

	2013	2014	2015	2016
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6	10	13	19	16
Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)	80.0	76.9	78.9	87.5
Chwarter meincnod	3	4	4	3
Saesneg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	10	13	19	16
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	80.0	76.9	89.5	87.5
Chwarter meincnod	4	4	2	3
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	50.0	15.4	31.6	37.5
Chwarter meincnod	1	4	3	2
Cymraeg iaith gyntaf				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	10	13	19	16
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	80.0	76.9	84.2	87.5
Chwarter meincnod	2	3	3	3
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	30.0	15.4	31.6	43.8
Chwarter meincnod	2	3	2	1
Mathemateg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	10	13	19	16
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	80.0	76.9	84.2	93.8
Chwarter meincnod	4	4	4	2
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	20.0	23.1	26.3	37.5
Chwarter meincnod	4	4	4	3
Gwyddoniaeth				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	10	13	19	16
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	80.0	76.9	78.9	93.8
Chwarter meincnod	4	4	4	2
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	30.0	0.0	10.5	31.3
Chwarter meincnod	2	4	4	3

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.

<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	94	93 99%	1 1%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	94	91 97%	3 3%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	93	92 99%	1 1%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	93	90 97%	3 3%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		97%	3%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	93	83 89%	10 11%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	92	89 97%	3 3%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	94	92 98%	2 2%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	94	91 97%	3 3%	Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	92	89 97%	3 3%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	93	84 90%	9 10%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	93	78 84%	15 16%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		77%	23%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	94	82 87%	12 13%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	51	17 33%	29 57%	5 10%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		63%	34%	3%	1%		
My child likes this school.	50	28 56%	20 40%	2 4%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		72%	26%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	49	31 63%	17 35%	1 2%	0 0%	2	Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		72%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	47	21 45%	24 51%	2 4%	0 0%	3	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		62%	35%	3%	1%		
Pupils behave well in school.	44	9 20%	31 70%	2 5%	2 5%	7	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		47%	48%	4%	1%		
Teaching is good.	44	23 52%	19 43%	2 5%	0 0%	6	Mae'r addysgu yn dda.
		61%	36%	2%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	48	21 44%	25 52%	2 4%	0 0%	3	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		64%	34%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	45	14 31%	24 53%	7 16%	0 0%	6	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		49%	43%	6%	2%		
Staff treat all children fairly and with respect.	45	19 42%	23 51%	2 4%	1 2%	6	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		60%	35%	4%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	40	12 30%	22 55%	6 15%	0 0%	11	Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		60%	38%	2%	0%		
My child is safe at school.	48	22 46%	24 50%	2 4%	0 0%	3	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		66%	32%	2%	1%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	38	19 50%	15 39%	2 5%	2 5%	13	Mae fy mhentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		55%	39%	4%	1%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I am kept well informed about my child's progress.	50	14 28%	25 50%	8 16%	3 6%	1	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn.
		49%	41%	9%	2%		
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	51	25 49%	22 43%	3 6%	1 2%	0	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		62%	31%	5%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	40	16 40%	14 35%	7 18%	3 8%	11	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		48%	42%	8%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	45	18 40%	27 60%	0 0%	0 0%	6	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		57%	40%	2%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	25	12 48%	8 32%	4 16%	1 4%	26	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		52%	41%	5%	1%		
There is a good range of activities including trips or visits.	48	21 44%	18 38%	9 19%	0 0%	3	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		54%	39%	6%	1%		
The school is well run.	49	16 33%	26 53%	6 12%	1 2%	2	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		61%	34%	3%	2%		

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Jonathan Cooper	Arolygydd Cofnodol
David Davies	Arolygydd Tîm
Gwen Aubrey	Arolygydd Lleyg
Buddug Bates	Arolygydd Cymheiriaid
Glesni Lloyd (Dirprwy Bennaeth)	Enwebai

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeiliant 1 i ddeiliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deiliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deiliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deiliant disgwylidig (deiliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.